



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

Coleg Caerdydd a'r Fro

Mawrth 2019

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am Goleg Caerdydd a'r Fro

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

- Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.
- Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Goleg Caerdydd a'r Fro:

- gyfeirio darpar fyfyrwyr yn fwy eglur at y drefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn (Diogelu'r Defnyddwyr)
- sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael eu cyfeirio'n fwy eglur at wybodaeth am gostau ychwanegol y cyrsiau perthnasol (Diogelu'r Defnyddwyr)
- roi eglurhad pellach i'r myfyrwyr o gyfrifoldebau penodol y Coleg a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu mewn perthynas ag apeliadau academaidd (Diogelu'r Myfyrwyr).

Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw welliannau penodol.

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 11 a 13 Mawrth 2019 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Dr Alan Howard
- Mr Conor Murray-Gauld
- Ms Elizabeth Shackels.

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i'r corff cyllido perthnasol am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Ynghylch Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (y Coleg) yn darparu addysg uwch a phellach a hyfforddiant ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Coleg yn pwysleisio'r ffaith ei fod yn ateb anghenion y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn ogystal â phontio'r bwlch mewn symudedd cymdeithasol a chodi dyheadau drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir. Mae ei genhadaeth yn cynnwys darparu addysg a hyfforddiant o safon uchel, canlyniadau eithriadol a phrofiad rhagorol i gwsmeriaid. Yn tanategu hyn i gyd mae gwerthoedd y Coleg: ysbrydoli, bod yn gynhwysol a dylanwadu.

Mae'r Coleg yn darparu ei ddarpariaeth addysg uwch ar ran pum corff dyfarnu:

Prifysgol De Cymru, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Coleg Prifysgol Birmingham, Prifysgol Kingston Llundain a Phrifysgol Gorllewin Llundain. Mae gan y Coleg gytundeb â Phrifysgol Abertawe, ond nid yw'n darparu cyrsiau ar ran y brifysgol hon. Mae'r Coleg yn darparu rhaglenni ar ddau safle yng Nghaerdydd a'r Barri mewn amrywiaeth eang o feysydd astudio, sy'n cynnwys astudiaethau busnes, peirianeg awyrennau a'r celfyddydau coginio. Ar amser yr adolygiad, roedd gan y Coleg 528 o fyfyrwyr addysg uwch.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

1 Mae gan y Coleg drefniadau sy'n bodloni gofynion ei gyrff dyfarnu graddau er mwyn sicrhau bod safonau academaidd y rhaglenni a gynigir yn cwrdd â, neu'n mynd yn uwch na safon trothwy'r DU sydd wedi'i ddisgrifio yn y FHEQ.

2 Mae'r Coleg yn darparu rhaglenni a ddilysir gan bump o'i gyrff dyfarnu, sy'n cadw'r cyfrifoldeb pennaf am osod a chynnal safonau academaidd. Er bod y mwyafrif o'r rhaglenni wedi'u cynllunio a'u hetholfreinio iddo gan ei gyrff dyfarnu, mae'r Coleg yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu dyfarniadau presennol cyn iddynt gael eu hail-ddilysu, ac mae cyfle iddo gynnig addasiadau i raglenni. Mae manylebau'r rhaglenni'n adlewyrchu'r FHEQ a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc. Dangosodd staff y Coleg ddealltwriaeth gadarn o'u pwysigrwydd a'u gweithrediad.

3 Mae'r Coleg yn cydnabod ei gyfrifoldeb i gynnal safonau drwy asesu, gan gynnwys profi a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r modiwlau sy'n cyfrannu at ddyfarniad. Mae arholwyr allanol a benodwyd i bob rhaglen gan y gyrff dyfarnu'n rhoi sicrwydd bod safonau academaidd yn cwrdd â'r safon trothwy, eu bod yn briodol ar gyfer lefel yr astudio, a'u bod yn gymaradwy gyda rhaglenni tebyg mewn darparwyr addysg uwch eraill. Yn y pendraw, rheolir y broses o ddyfarnu credyd gan y gyrff dyfarnu a'u rheoliadau.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

4 Y prif bwynt cyfeirio i'r Coleg yn nhermau fframweithiau safonau academaidd yw'r FHEQ. Fodd bynnag, mae gofyn i bob prifysgol a choleg yng Nghymru ddefnyddio FfCChC hefyd wrth alinio cymwysterau a chyflwyno credydau. Mae llawlyfrau a disgrifwyr modiwlau a manylebau rhaglenni'r Coleg yn cynnwys cyfeiriadau priodol at FfCChC, ac roedd y staff yn gallu esbonio sut i weithredu FfCChC yn y gwaith o gynnal safonau.

Y cod llywodraethu perthnasol: megis y Cod Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion neu'r Cod Llywodraethu Da i Golegau yn Lloegr gan Gymdeithas y Colegau

5 Mae gan y Coleg drefnau llywodraethu effeithiol, sy'n ei alluogi i gadw goruchwyliaeth ar ei brosesau llywodraethu academaidd. Mae strwythur pwyllgorau'r Coleg yn amlinellu'r prif bwyllgorau addysg uwch sy'n cynnwys: y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, y Bwrdd Ansawdd a Safonau, y Pwyllgor Cwricwlwm, Ansawdd a Materion Myfyrwyr, Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, yr Uwch Dîm Rheoli, a'r Bwrdd Academaidd Addysg Uwch. Bydd aelodaeth bob pwyllgor yn amrywio yn dibynnu ar ei gylch gwaith, ond mae'r pwyllgorau'n cynnwys Arweinwyr Rhaglen, Penaethiaid Adran, uwch reolwyr a Llywodraethwyr penodol, yn ogystal â Chlerc y Corff Llywodraethu sydd â rôl benodol o ran monitro gwaith pob pwyllgor a rhoi gwybod i'r Llywodraethwyr yn rheolaidd am unrhyw faterion allweddol.

6 Yn dilyn adolygiad o strwythurau llywodraethu'r Coleg, penodwyd pedwar llywodraethwr sydd â phrofiad ym maes addysg uwch, sy'n rhoi gwell dealltwriaeth i'r Corff Llywodraethu o'r risgiau academaidd ym maes addysg uwch. Mae'r Is-Bennaeth a'r Dirprwy Is-Bennaeth Cwricwlwm a Safonau Academaidd yn cadw goruchwyliaeth strategol ar y ddarpariaeth addysg uwch. Mae'r Deon Addysg Uwch yn rhoi cefnogaeth weithredol effeithiol gyda gwaith megis monitro a darparu'r ddarpariaeth mewn cydweithrediad â Phenaethiaid yr Adrannau.

7 Mae'r Coleg wedi nodi cylchoedd gwaith clir i'w bwyllgorau addysg uwch. Mae cofnodion a champau gweithredu'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn llifo i bwyllgor y Bwrdd Academaidd Addysg Uwch, sy'n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn, ac mae ei Gadeirydd, sy'n aelod o'r Corff Llywodraethu, yn cadw llygad ar y gwaith gweithredol a strategol sy'n ymwneud â risg academaidd. Mae'r cysylltiad hwn yn penderfynu'r drafodaeth fisol a gynhelir gan y Llywodraethwyr am faterion cwricwlwm ac ansawdd, er enghraifft yr adroddiadau monitro perfformiad gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae Cadeirydd y Bwrdd Academaidd Addysg Uwch yn eistedd ar y Pwyllgor Archwilio hefyd i gadw llygad ar risgiau academaidd.

8 Mae trefnau llywodraethu'r Coleg yn gefnogol o ran parchu rhyddid academaidd. Mae Arweinydd Ysgolheictod, a benodwyd yn ddiweddar gan y Coleg, yn gyfrifol am weithgareddau ysgolheigaidd addysg uwch, mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Deon Addysg Uwch ac mae'n eistedd ar is-bwyllgorau addysg uwch eraill. Croesawyd y penodiad gan y staff oherwydd mae'n sicrhau bod cyfleoedd datblygiad ar gael i'r staff, sy'n cynnwys cael hyfforddiant QAA a chyflawni statws Cymrawd Advance HE (sef yr Academi Addysg Uwch gynt). Mae cyfrifoldebau'r Arweinydd Ysgolheictod hefyd yn cynnwys tynnu sylw at gyfleoedd ysgolheigaidd a threfnu Cynhadledd Addysg Uwch flynyddol y Coleg i rannu arferion gorau, gyda'r myfyrwyr a'r staff yn bresennol.

9 Mae gan y Coleg drefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer rheoli risgiau academaidd. Mae'n cadw cofrestr o risgiau sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd ac sy'n cynnwys risgiau academaidd ym maes addysg uwch. Mae'r Llywodraethwyr a'r uwch reolwyr yn ystyried ac yn adolygu'r gofrestr drwy gydol y flwyddyn academaidd i hysbysu cynlluniau gweithredu yn eu meysydd perthnasol. Mae risgiau academaidd yn derbyn sylw hefyd drwy'r fframwaith pwyllgorau addysg uwch yn y Coleg, sy'n darparu cyfleoedd i ganfod risgiau drwy ystyried adborth o adroddiadau arholwyr allanol, monitro cyfresi data allweddol megis canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr (ACF) ac ystyried adborth gan fyfyrwyr am eu cyrsiau a'u modiwlau, ac arolwg addysg uwch y Coleg. Mae'r Coleg yn cydnabod bod y niferoedd is o fyfyrwyr sydd ar rai cyrsiau penodol yn achosi risgiau unigryw mewn perthynas ag ymarferoldeb rhedeg y cwrs ac felly mae'n cymryd rôl ragweithiol mewn monitro cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr yn barhaus.

10 Mae'r Coleg yn ymwreiddio'r Safonau Iaith Gymraeg drwy'r Coleg cyfan. Ei Strategaeth ar gyfer y Ddwy Iaith, a weithredir ac a gefnogir gan y Llywodraethwyr a'r uwch reolwyr, sydd wedi gyrru'r ymwreiddio hwn, ac mae'r staff i gyd yn ymwybodol ohoni.

11 Cadarnhaodd y Coleg fod pump o'i Lywodraethwyr yn siarad Cymraeg a thynnodd sylw at ei ymrwymiad i gynyddu unrhyw ddefnydd achlysurol a wneir o'r Gymraeg. Hefyd, cadarnhaodd y Llywodraethwyr eu bod wedi bod wrthi'n hyrwyddo siarad Cymraeg ar draws y sefydliad, gan fapio'r Coleg yn erbyn cyfarwyddyd Comisiynydd y Gymraeg am y Safonau Iaith Gymraeg.

Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

12 Mae'r Coleg yn darparu addysg uwch yn unol â fframweithiau a rheoliadau academaidd ei gyrff dyfarnu, gan sicrhau safonau academaidd dyfarniadau a chymwysterau pob un o'r sefydliadau addysg uwch.

13 Mae proses glir ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglenni a ddarperir gan y Coleg sy'n dilyn fframweithiau, rheoliadau a gweithdrefnau ei gyrff dyfarnu. Pan ofynnir am newidiadau i raglenni neu pan gynigir rhaglenni newydd, mae gan y Coleg broses fewnol sy'n cael ei chwblhau mewn cydweithrediad â Thiwtor Cyswllt y corff dyfarnu perthnasol. Mae gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Bwrdd Academaidd Addysg Uwch oruchwyliaeth fel rheolwyr ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

14 Mae'r Coleg yn gwneud pob asesiad yn unol â pholisïau, rheoliadau a phrosesau asesu'r gyrff dyfarnu, gan roi ystyriaeth i safonau trothwy'r DU, y FHEQ a safonau academaidd y corff dyfarnu perthnasol.

15 Mae staff y Coleg yn cydweithio'n effeithiol â'r Swyddogion Cyswllt Prifysgol i sicrhau bod strategaethau ei gyrff dyfarnu ar gyfer asesu a rhoi adborth yn cael eu gweithredu yn unol â'r fframweithiau a rheoliadau academaidd perthnasol.

16 Hefyd, ceisir cymeradwyaeth ffurfiol gan yr arholwyr allanol i bob asesiad sy'n cael ei lunio gan y Coleg. Mae gan y Coleg broses safoni fewnol i wirio penderfyniadau asesu, a chynhelir Byrddau Rhaglenni i ddilysu'r marciau. Ar ôl cwblhau'r prosesau marcio a rhoi adborth, anfonir samplau o'r gwaith at y corff dyfarnu perthnasol i gael eu safoni unwaith eto. Mae pob asesiad yn cael ei ddilysu gan yr arholwr allanol fel yr amlinellwyd yn rheoliadau pob un o'i gyrff dyfarnu. Mae Arweinwyr y Rhaglenni a'r Deon Addysg Uwch yn mynychu cyfarfodydd blynyddol byrddau arholi lle mae'r brifysgol berthnasol yn cael ei chynrychioli.

17 Mae'r staff yn rhoi adborth datblygiadol am y gwaith sydd wedi'i farcio, ac roedd y myfyrwyr yn bositif iawn ynglŷn â'r wybodaeth y maent yn eu darparu am asesiadau a'r adborth a roddwyd iddynt i hysbysu eu dysgu yn y dyfodol. Dywedodd y myfyrwyr yn glir bod eu gwaith yn cael ei farcio mewn da bryd a'u bod yn cael eu cefnogi'n effeithiol yn eu dysgu a'u datblygiad.

18 Mae'r Coleg wedi datblygu ei bolisi a'i weithdrefn ei hun ar gyfer achredu dysgu profiadol blaenorol sy'n alinio â gofynion pob un o'i gyrff dyfarnu. Mae'r myfyrwyr yn cael eu cefnogi'n effeithiol drwy'r broses. Cynhelir Bwrdd Mewnol ar gyfer achredu dysgu profiadol blaenorol lle mae pob cais yn cael ei drafod a'i ddilysu, a hysbysir y corff dyfarnu perthnasol am bob penderfyniad fel y bo'n briodol. Yn y dyfodol, bydd y Coleg yn cynhyrchu adroddiad bob blwyddyn i'r Corff Llywodraethu am y myfyrwyr sydd wedi gwneud cais i gael achrediad i'w dysgu profiadol blaenorol.

19 Mae'r Coleg yn gwneud defnydd da o adroddiadau arholwyr allanol. Mae camau gweithredu sy'n codi o'r adroddiadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro blynyddol sydd i gael eu defnyddio gan y gyrff dyfarnu a phwyllgor y Coleg. Cadarnhaodd y myfyrwyr fod adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael iddynt ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg a'u bod yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd cynrychiolwyr y myfyrwyr.

20 Mae Penaethiaid Adran y Coleg yn rhoi dadansoddiadau ystadegol o'r perfformiad yn eu meysydd perthnasol i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau Academaidd. Mae unrhyw themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiadau hyn yn cael eu cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Coleg sydd wedyn yn cael ei fonitro gan y Deon Gwella Ansawdd. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd Academaidd Addysg Uwch a'r Bwrdd Ansawdd a Safonau, sy'n is-bwyllgor i'r Corff Llywodraethu.

21 Mae adroddiadau'r cyfadrannau'n canolbwyntio ar y safonau academaidd ac yn defnyddio data allweddol, megis gwybodaeth am gadwraeth, presenoldeb, proffiliau dysgu ac addysgu, a data'r ACF. Mae adroddiadau monitro blynyddol hefyd yn bwydo i mewn i adroddiadau'r cyfadrannau i'r Tîm Gweithredol, y Bwrdd Academaidd Addysg Uwch a'r Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau Academaidd. Cyflwynir adroddiadau monitro blynyddol i'r gyrff dyfarnu graffu arnynt. Tystiolaeth o hyn yw'r adroddiadau hunanwerthuso addysg uwch sy'n rhoi ystyriaeth i ddata'r ACF hefyd.

Y feirniadaeth

22 Mae trefniadau sicrhau ansawdd y Coleg yn briodol o ran ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at ei gyrff dyfarnu a'i sefydliadau dyfarnu, ac i alinio â'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol wrth gynnal safonau academaidd.

23 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

24 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli a monitro ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr wedi'u sefydlu'n dda drwy brosesau dilysu ac adolygu cyrsiau. Mae'r amcanion strategol yn cael eu gweithredu yng nghynllun gweithredu Strategaeth Addysg Uwch y Coleg sy'n cynnwys amcanion, amseriadau a dangosyddion perfformiad allweddol clir iddynt. Mae gan y Coleg strwythur pwyllgorau yn benodol i addysg uwch sydd â chylchoedd gwaith diffiniedig, a llinellau adrodd clir i'r uwch reolwyr a'r Llywodraethwyr. Mae trefn fonitro flynyddol, a ddatblygwyd gan y Coleg ar gyfer ei gyrsiau addysg uwch, yn rhyng-gysylltu'n llwyddiannus â gofynion ei gyrrff dyfarnu.

25 Mae'r Coleg yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i fonitro a gwella profiad academiaidd ei fyfyrwyr. Cesglir adborth gan fyfyrwyr yn systematig drwy holiaduron ar gyfer gwerthuso modiwlau ac arolwg addysg uwch blyneddol y Coleg. Dadansoddir data'r ACF i gynhyrchu cynllun gweithredu. Mae adroddiadau, sy'n cynnwys adborth gan fyfyrwyr a data am gadwraeth a phresenoldeb, yn cael eu hystyried mewn pwyllgorau perthnasol. Mae'r Coleg yn sicrhau mewnbyn allanol o fyd diwydiant ac yn ei ystyried mewn adroddiadau monitro blyneddol, ochr yn ochr â data ystadegol, adroddiadau arholwyr allanol ac adborth gan fyfyrwyr. Mae byrddau cyflogwyr y Coleg yn ffurfioli ei gysylltiadau cryf gyda'r cyflogwyr a'r diwydiant yn y rhanbarth.

26 Cynrychiolir llais y myfyrwyr mewn pwyllgorau, gan gynnwys ar lefel y Corff Llywodraethu. Mae cynrychiolwyr etholedig y myfyrwyr yn cael eu hyfforddi ac mae llyfryn adnoddau ar-lein ar gael iddynt sy'n cynnwys gwybodaeth i'w cefnogi yn eu gwaith. Mae'r corff myfyrwyr yn derbyn adborth ac ymatebion i faterion a godwyd ganddynt, gan gynnwys drwy gyhoeddiadau 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' ar sgriniau plasma yn y Coleg a'i rith-amgylchedd dysgu. Hefyd, mae cyfle i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn grwpiau ffocws dan arweiniad y Cydlynedd Cynhwysiad a Llais y Dysgwyr, a mynd i gyfarfodydd anffurfiol gyda llywodraethwyr ac aelodau uwch o'r staff bob tymor. Mae Siarter y Dysgwyr yn amlinellu ymrwymiad y Coleg i gynnwys y myfyrwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

27 Mae Polisi Derbyn y Coleg yn amlinellu dull o gofrestru myfyrwyr sy'n deg, yn eglur ac yn gyfartal. Mae gweithdrefn gysylltiedig ar gyfer derbyn myfyrwyr i gyrsiau addysg uwch yn disgrifio'r ffordd y mae ceisiadau drwy system UCAS a cheisiadau uniongyrchol ar-lein yn cael eu prosesu gan staff hyfforddedig. Ar ôl eu derbyn, mae'r myfyrwyr yn cwblhau cyfnod cynefino, pan fyddent yn cael ymgyfarwyddo â rheoliadau'r brifysgol berthnasol, adnoddau gwahanol y Coleg a gwybodaeth am gymorth cyllid myfyrwyr. Mae'r holl wybodaeth ar gael iddynt yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y myfyrwyr hyn oedd wedi dychwelyd ar ôl cyfnod hir allan o fyd addysg yn canmol y gefnogaeth a'r cyngor oedd ar gael iddynt i'w helpu i addasu i fywyd fel dysgwr unwaith eto.

28 Mae gwybodaeth ddigon manwl am eu cyrsiau a'r Coleg ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu ac yn llawlyfrau'r cyrsiau, ac mae'r Penaethiaid Adran yn goruchwyllo'r gwaith o reoli cynnwys y deunyddiau hynny. Mae gan wefan y Coleg adran benodol i addysg uwch sy'n cynnwys taflenni gwybodaeth am y cyrsiau. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gael ar y wefan, ac mae'r rhai sy'n berthnasol i addysg uwch ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu.

29 Mae cytundebau dysgwr unigol a thargedau o ran cynnydd ar gyfer pob myfyriwr yn cael eu monitro a'u diweddarau'n rheolaidd gan eu tiwtor personol neu diwtor eu cwrs mewn trafodaeth â'r myfyriwr. Yn gyffredinol, mae'r dosbarthiadau'n fach, ac mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd y mae hyn yn eu darparu i ryngweithio ac i gael cefnogaeth wedi'i theilwra. Anogir y myfyrwyr i gymryd rhan weithredol yn y broses o ddysgu ac asesu, ac maent yn cael cefnogaeth dda os ydynt yn dewis astudio a gwneud gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae canolfan sgiliau'r Coleg yn cynnig cymorth academaidd ychwanegol, megis sesiynau ar sut i lunio cyfeiriadau'n gywir mewn gwaith academaidd. Mae'r Tîm Lles yn cefnogi myfyrwyr sydd â phroblemau neu sydd mewn sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu cyfranogaeth neu eu gallu i astudio. Mae cyfle i fyfyrwyr ddatgelu unrhyw anghenion am gymorth arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol, ac mae trefniadau'n cael eu cytuno a'u gweithredu ar y cyd rhwng y gwasanaethau myfyrwyr a'r timau cwrs. Mae'r cynghorwyr cyflogadwyedd o fewn y Coleg yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad gyrfaoel. Mae'r myfyrwyr yn canmol yr ystod o gefnogaeth sydd ar gael iddynt a'r tiwtoriaid sy'n hawdd cael gafael arnynt i gael cyngor ac adborth ffurfiannol.

30 Mae trefniadau priodol ar gyfer trefnu a rheoli dysgu seiliedig ar waith, sy'n cynnwys sicrhau cydymffurfiaid â gofynion iechyd a diogelwch a rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr tra byddent i ffwrdd ar leoliad gwaith. Mae dealltwriaeth dda o'r cyfrifoldebau, ac mae'r prosesau perthnasol yn cael eu cefnogi gan y Swyddog Cyflogadwyedd a Datblygiad Gyrfaoel. Mae gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith yn cyfoethogi profiad y myfyrwyr, gweithgareddau megis gweithdai ar berfformiad a arweinir gan arbenigwyr gwadd o fyd diwydiant, ac aseiniadau gwaith go iawn sy'n cysylltu myfyrwyr â chyflogwyr sy'n gweithio ar friffiau cleientiaid.

31 Mae'r myfyrwyr cyfredol yn mynegi boddhad gydag ansawdd yr adnoddau dysgu a ddarperir iddynt. Mae hwb addysg uwch penodol yn darparu lle i ryngweithio ac i astudio'n breifat. Mae adnoddau penodol i addysg uwch ar gael yn y llyfrgell, a gall y myfyrwyr ddefnyddio canolfan adnoddau sy'n cynnwys cyfleusterau technoleg gwybodaeth. Mae adnoddau dysgu ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu i gefnogi'r gwaith o ddarparu modiwlau. Gall y myfyrwyr ddefnyddio'r llyfrgell yn y brifysgol sy'n gorff dyfarnu iddynt ac, mewn rhai achosion, adnoddau ar-lein y brifysgol hefyd. Trafodir materion yn ymwneud ag adnoddau yng nghyfarfodydd byrddau rhaglenni, ac mae'r Coleg wrthi'n gweithredu Cynllun Adnoddau Addysg Uwch Blyneddol newydd, gyda'r nod o gryfhau'r prosesau cynllunio adnoddau ymhellach. Mae canlyniadau'r arolwg myfyrwyr blyneddol mwyaf diweddar (2019) yn dangos lefelau da o foddhad ymysg y myfyrwyr gyda'r adnoddau dysgu sydd ar gael iddynt.

32 Mae'r staff addysgu'n manteisio ar ystod o gyfleoedd hyfforddi, sy'n cynnwys gweithgareddau penodol i addysg uwch megis seminarau a chynadleddau sy'n berthnasol i'r meysydd astudio. Mae nifer o aelodau'r staff naill ai wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at statws Cymrawd Advance HE (sef yr Academi Addysg Uwch gynt). Gall y staff addysgu wneud cais am gyllid mewnol i gefnogi gweithgareddau, ac maent yn cael cefnogaeth dda gan yr Arweinydd Ysgolheictod Addysg Uwch. Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Ysgolheictod yn rheolaidd, ac anogir y staff i gyfrannu at Gyfnodolyn Addysg Uwch a Chynhadledd Addysg Uwch flynyddol y Coleg. Roedd adroddiad adolygiad cyfnodol diweddar yn canmol yr awydd gwirioneddol i ddatblygu a hwyluso gweithgareddau ysgolheigaidd o fewn y Coleg.

Y cod llywodraethu perthnasol

33 Mae gan y Coleg drefnau llywodraethu effeithiol i annog ei fyfyrwyr i gymryd rhan mewn prosesau llywodraethu academaidd. Dangosodd y Coleg ei ymrwymiad i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei gynrychioli'n gywir a'i gynnwys yn strwythur llywodraethu'r Coleg drwy greu rôl Swyddog Sabothol Addysg Uwch, a etholir bob blwyddyn gan fyfyrwyr, sy'n eistedd ar bwyllgorau allweddol y Coleg ac sy'n aelod o'r Corff Llywodraethu. Yn ogystal, mae Cydlynnydd Llais y Dysgwyr sydd â'r rôl o sicrhau bod clust i lais y myfyrwyr ar bob lefel yn y Coleg, ac sy'n gweithredu fel pont ar gyfer cyfathrebu rhwng y myfyrwyr a'r staff. Roedd y myfyrwyr yn bositif ynglŷn â'r ffordd y mae'r staff yn annog pob myfyriwr i roi adborth ar amser priodol drwy gydol y flwyddyn academaidd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Hefyd, mae Cydlynnydd Llais y Dysgwyr yn gweithio gyda chynrychiolwyr dosbarth, gan gynnwys eu hyfforddi ynglŷn â sut i fod yn gynrychiolydd dosbarth effeithiol, gyda chymorth canllaw ar Rôl Cynrychiolydd Dosbarth, sy'n rhoi gwybodaeth glir am y rôl. Mae'r Coleg yn defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol am adborth gan fyfyrwyr, megis data'r ACF, i lunio cynlluniau gweithredu sy'n cael eu hystyried yn y pen draw yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu.

34 Mae trefnau llywodraethu'r Coleg yn sicrhau bod cwynion a diogelwch y myfyrwyr yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol. Mae'r Llywodraethwyr yn cynnal lefel briodol o oruchwyliaeth dros Gofnod o Gwynion am Ddarpariaeth Addysg Uwch y Coleg, sy'n cael ei gadw gan y Deon Gwella Ansawdd. Adroddir ar y Cofnod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau, ac yna rhoddir gwybod i'r Llywodraethwyr am y rhannau ohono sydd angen sylw.

Y polisiau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau bod y dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn cael eu cyflawni (cyfarwyddyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd)

35 Mae gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch y Coleg ar gael, yn electronig ac mewn print, ym mhrospectws addysg uwch y Coleg a thafleuni'r rhaglenni addysg uwch. Yn ogystal, mae system ar-lein yn rhoi cyfle i fyfyrwyr deilwra eu prospectws personol, sydd wedyn yn cael ei anfon at y myfyriwr mewn print yr wythnos ddilynol. Hefyd, mae'r Coleg yn trefnu digwyddiadau traws-gampws penodol, megis Diwrnodau Agored, Wythnos Datblygiad Gyfaol a Nosweithiau Agored neilltuedig ar gyfer marchnata ei ddarpariaeth addysg uwch, sy'n rhoi cyfleoedd i ddarpar fyfyrwyr gysylltu wyneb yn wyneb ag Arweinwyr y Rhaglenni a'r staff derbyn.

36 Mae proses y Coleg ar gyfer derbyn myfyrwyr i raglenni addysg uwch wedi'i hesbonio ym mholisi a gweithdrefn y Coleg ar gyfer derbyn myfyrwyr, ac mae'n cyfateb â'i gytundebau gyda'i gyrff dyfarnu. Cadarnhaodd staff y Coleg fod y broses o ymgeisio'n nodi'n gyson ac yn eglur pwy sy'n gyfrifol am y gwahanol gamau. Y Grŵp Marchnata a Recriwtio ar gyfer Addysg Uwch sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r broses ymgeisio a chofrestru. Mae'r staff academiaidd a'r staff proffesiynol yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd, ac maent yn clywed beth yw eu rolau i sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth sy'n gywir ac yn gyfoes, er enghraifft mewn perthynas â newidiadau i Dariff UCAS. Mae gwybodaeth am gamau'r broses ymgeisio hefyd ar gael i ddarpar fyfyrwyr gan staff derbyn y Coleg.

37 Gwneir ceisiadau am raglenni llawn amser a rhan amser naill ai'n uniongyrchol i'r Coleg neu gan ddefnyddio system UCAS drwy'r corff dyfarnu perthnasol. Mae Arweinwyr y Rhaglenni perthnasol yn gyfrifol am benderfynu a ddylid derbyn myfyrwyr, gan ystyried argymhellion gan y staff derbyn. Mae'r wefan yn tywys darpar fyfyrwyr llawn amser a rhan amser i gwblhau cais ar-lein, sy'n cael ei yrru at y staff derbyn a'i anfon ymlaen at arweinydd y rhaglen berthnasol. Mae Pennaeth y Grŵp Marchnata a Recriwtio ar gyfer Addysg Uwch yn gyfrifol am sicrhau bod y broses dderbyn yn gweithio'n effeithlon, ac mae'n gweithio'n agos gydag Arweinwyr y Rhaglenni a'r staff addysg uwch i sicrhau hyn. Er enghraifft, mae'r staff derbyn yn ymateb i unrhyw ymholiadau mewnol ac allanol o fewn 48 awr.

38 Mae arweinydd pob rhaglen yn gyfrifol am drafod gyda'r Tîm Derbyn i gytuno ar y meini prawf mynediad ar gyfer eu rhaglenni eu hunain. Bydd Deon Taith y Dysgwyr a'r staff derbyn yn cysylltu â'r darpar fyfyrwyr i drafod a ydynt yn gymwys i astudio eu rhaglenni. Cadarnhaodd y staff fod yr holl geisiadau'n cael eu trin mewn ffordd deg a chyfartal yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau'r Coleg sy'n berthnasol i'r polisi derbyn. Gwahoddir myfyrwyr llwyddiannus i fynd i gyfweiliad gyda thîm y rhaglen, a byddent wedyn yn derbyn cynnig amodol. Bydd myfyrwyr nad ydynt yn gymwys neu 'fyfyrwyr wedi'u hailgyfeirio' yn derbyn neges e-bost gyda chynghor sy'n eu cyfeirio at raglenni priodol eraill. Bydd y neges hefyd yn nodi eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad drwy ddilyn Trefn Gwyno'r Coleg.

39 Mae Trefn Apelio yn erbyn Penderfyniadau Derbyn y Coleg i'w chael ym Mholisi Cwynion a Chanmoliaethau'r Coleg. Cadarnhaodd y Coleg fod hawl gan 'fyfyrwyr wedi'u hailgyfeirio' i apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn unwaith y byddent wedi derbyn neges e-bost ailgyfeirio. Ond nid oes unrhyw ddolen na chyfeiriad clir sy'n tywys myfyrwyr at yr wybodaeth ynglŷn â sut i apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn sydd yn y Polisi Cwynion a Chanmoliaethau. Mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg gyfeirio darpar fyfyrwyr yn fwy eglur at y drefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn.

40 Penaethiaid yr Adrannau sy'n gyfrifol am lofnodi a chymeradwyo unrhyw ddeunyddiau marchnata. Mae'r wybodaeth ar-lein am gyrsiau a'r Canllaw Addysg Uwch yn cynnwys adran gyda gwybodaeth am ffioedd ar gyfer gwahanol raglenni. Mae'r Grŵp Marchnata a Recriwtio ar gyfer Addysg Uwch a'r Cofrestrydd Addysg Uwch yn monitro'r wybodaeth hon yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn gyson ac yn gywir, a bod yr amodau a thelerau ar gael. Canfu'r tîm adolygu anghysonderau yn hygyrchedd yr wybodaeth sydd ar gael am gostau ychwanegol y cyrsiau ar rai rhaglenni. Cydnabu aelodau uwch o staff y Coleg bod rhai gwahaniaethau rhwng y manau lle gallai myfyrwyr ganfod gwybodaeth bwysig megis costau ychwanegol, ond roeddent yn pwysleisio'r ffaith y cyfathrebu yn rheolaidd â darpar fyfyrwyr ar bob cam o'r broses dderbyn i sicrhau eu bod wedi derbyn gwybodaeth berthnasol a chyfoes. Mae'r Coleg yn dod yn agos at lansio ei wefan newydd a byddai craffu'n well ar yr wybodaeth a gyhoeddir yn sicrhau bod yr wybodaeth yn fwy cyson. Mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael eu cyfeirio'n fwy eglur at wybodaeth am gostau ychwanegol y cyrsiau perthnasol.

Y trefniadau diogelu myfyrwyr

41 Mae'r Coleg yn anfon llythyr cadarnhau cynnig at ddarpar fyfyrwyr yn rhan o'i broses o gynnig lle astudio, ac mae'r llythyr yn nodi ei amodau a thelerau'n glir. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys polisi'r Coleg ar gau cyrsiau, neu wybodaeth os bydd yn digwydd peidio rhedeg rhai cyrsiau. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu ei ymrwymiad i roi gwybod i fyfyrwyr gynted ag y bo modd os bydd cwrs yn mynd yn llai tebygol o gael ei redeg am resymau ymarferol. Rhoddir gwybod i fyfyrwyr mewn llythyr ynglŷn ag unrhyw newidiadau i gyrsiau. Hefyd, anfonir llythyr at y myfyrwyr os nad yw cwrs yn rhedeg ac mae'n cynnig rhagor o gyfleoedd i drafod y mater gyda'r Coleg.

42 Cadarnhaodd y Coleg nad yw wedi methu â rhedeg cwrs a'i fod wedi glynu at ei ymrwymiad i'r sector drwy dderbyn myfyrwyr o gwrs arall gyda darparwr arall nad oedd wedi rhedeg y cwrs. Hefyd, cadarnhaodd aelodau uwch o'r staff fod ganddynt ymrwymiad i sicrhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer 'dysgu allan', ar y cyd gyda chyrrff dyfarnu'r Coleg, fel y mae wedi'i atgyfnerthu gan eu cytundebau partneriaeth.

43 Amlinellodd y Coleg sut mae'n defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu, sy'n cynnwys llythyrau a negeseuon e-bost at fyfyrwyr am unrhyw newidiadau sylweddol i'w cyrsiau. Cafwyd enghreifftiau gan y myfyrwyr o'r amseroedd pan ymgynghorwyd â nhw am newidiadau i'w cyrsiau, gyda chyfleoedd i roi adborth ac opsiynau ynglŷn â sut i symud eu hastudiaethau yn eu blaenau. Cadarnhaodd y myfyrwyr fod y Coleg yn gweithredu mewn ffordd briodol ac mewn da bryd.

44 Mae gan y Coleg Bolisi Cwynion a Chanmoliaethau. Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am y polisi hwn yn ystod eu cyfnod cynefino, ac mae'r staff academiaidd yn cyfeirio ato. Mae'r polisi ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu ac ar wefan y Coleg, ac mae wedi'i gynnwys yn llawlyfrau'r cyrsiau. Mae'r amserlen ar gyfer apelio wedi'i hamlinellu'n glir yn y dogfennau ac mae'n cyfateb â'r safonau a dderbynnir yn gyffredinol drwy'r sector cyfan. Mae digon o lefelau i symud cwynion i fyny drwyddynt, a chadarnhaodd y staff fod cyfle iddynt, os na fyddent yn fodlon ar ddiwedd y broses, gymryd eu cwyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae gan y Deon Gwella Ansawdd y cyfrifoldeb cyffredinol am gwynion ac mae'n cadw Cofnod o Gwynion. Mae'r cofnod yn cofnodi gwybodaeth allweddol a chanlyniadau bob cwyn, yn ffurfiol ac anffurfiol, ac mae hefyd yn cynnwys ffeiliau achos. Mae'r Deon yn gyfrifol hefyd am adrodd ar y Cofnod o Gwynion i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r Pwyllgor Archwilio, gan roi sicrwydd priodol i'r Llywodraethwyr.

45 Mae'r Coleg yn annog y myfyrwyr i ddatrys cwynion yn anffurfiol, yn gyntaf ar lefel y cwrs. Fodd bynnag, os na cheir ateb i'r gŵyn ar y cam hwn, bydd y myfyrwyr yn cael eu cyfeirio at y Polisi Cwynion a Chanmoliaethau, sy'n amlinellu proses glir i'r staff ei dilyn sy'n cynnwys

digon o lefelau i symud cwynion i fyny drwyddynt. Cadarnhaodd y staff y bydd y myfyrwyr yn derbyn llythyr terfynol ar ddiwedd y broses y gallent ei gyflwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os ydynt yn anfodlon gydag ymateb y Coleg. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff a'r myfyrwyr nad yw hyn wedi digwydd hyd yma. Gellir ymgynghori hefyd gyda staff nad ydynt yn aelodau o'r timau cwrs i sicrhau lefelau pellach o graffu ac annibyniaeth os na fydd y gŵyn wedi'i datrys ar y cam cyntaf. Rhoddir gwybod i'r Llywodraethwyr am gwynion ond maent yn aros yn amhleidiol ac yn annibynnol oddi wrth y gŵyn wreiddiol os bydd y myfyriwr eisiau apelio yn erbyn penderfyniad.

46 Dangosodd y Coleg ganlyniadau cwynion, yn ogystal ag achosion lle mae'r staff wedi defnyddio adborth gan fyfyrwyr yn fwy cyffredinol i siapio cynlluniau gweithredu ac addasu cyrsiau. Dangoswyd hyn yn yr wybodaeth ychwanegol oedd yn y Cofnod o Gwynion a chafodd ei gadarnhau gan y staff. Cafodd ei adleisio hefyd gan y Llywodraethwyr a'r myfyrwyr oedd yn gallu rhoi esiamplau o newidiadau amlwg i gynnwys y cyrsiau ar sail adborth a roddwyd a phryderon a godwyd.

47 Er bod y Polisi Cwynion a Chanmoliaethau'n cynnwys y broses ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn, canfu'r tîm adolygu bod modd gwneud yr wybodaeth yn fwy eglur i'r myfyrwyr ar amser gwneud y cynnig, a chynghorir bod hwn yn faes sydd angen ei ddatblygu. Mae'r Polisi Cwynion a Chanmoliaethau a'r llawlyfrau i fyfyrwyr yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr y dylent ddatrys unrhyw apeliadau academaidd gyda'u corff dyfarnu perthnasol. Er bod y Coleg yn esbonio'r broses apeliadau academaidd yn ystod sesiynau cynefino'r myfyrwyr a ddarperir gan aelodau uwch o'r staff, ni allai'r myfyrwyr esbonio'n hyderus beth yw'r seiliau ar gyfer apêl academaidd na pha gefnogaeth y byddent yn ei derbyn gan y Coleg. Yn ogystal, nid oedd y myfyrwyr yn glir ynglŷn â ble i ganfod yr wybodaeth am broses y corff dyfarnu ac nid yw hyn wedi'i ddogfennu'n glir yn y Polisi Cwynion a Chanmoliaethau nac yn hawdd ei ganfod ar y rhith-amgylchedd dysgu. Er bod y tîm adolygu'n ystyried bod y trefniadau sydd ar waith yn ddigonol ar gyfer ymdrin ag apeliadau academaidd, a bod y staff yn deall y cyfrifoldebau, mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg roi eglurhad pellach i'r myfyrwyr o gyfrifoldebau penodol y Coleg a chyfrifoldebau'r cyrff dyfarnu mewn perthynas ag apeliadau academaidd

Y feirniadaeth

48 Mae tri maes sydd angen eu datblygu yn y maes beirniadaeth hwn sy'n ymwneud â diogelu'r defnyddwyr a diogelu'r myfyrwyr, ac mae eu ffocws ar sicrhau bod y Coleg yn gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch ac yn fwy eglur i'r myfyrwyr. Mae angen darparu gwybodaeth fwy hygyrch ynglŷn â sut i apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn ac mae angen i'r costau ychwanegol fod yn fwy eglur o fewn y maes diogelu defnyddwyr. Yn ogystal, mae angen rhoi eglurhad pellach i'r myfyrwyr o gyfrifoldebau'r Coleg mewn perthynas â'r broses apeliadau academaidd. Mae'r meysydd sydd angen eu datblygu'n ymdrin ag achosion bychain o hepgoriad neu amryfusedd, neu'n cynnwys diweddarau dulliau nad ydynt yn gofyn unrhyw newidiadau gweithredol mawr.

49 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

50 Mae'r Safonau Iaith Gymraeg wedi'u hyrwyddo'n effeithiol o fewn y Coleg drwy Strategaeth Ddwyeithog sy'n dangos ymrwymiad lefel uchel i hybu'r iaith Gymraeg, ac mae'r Llywodraethwyr a'r Uwch Dîm Rheoli wedi ymrwymo iddi hefyd.

51 Yn 2018-19, roedd 32 o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg wedi'u cofrestru ar raglenni addysg uwch, a rhoddodd y myfyrwyr a'r staff sylwadau positif am ymrwymiad y Llywodraethwyr a'r uwch reolwyr i ddarparu cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfathrebir â myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr yn rheolaidd yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hysbysebiri y Safonau Iaith Gymraeg drwy'r Coleg cyfan, ac mae'r myfyrwyr yn cael gwybod am eu hawliau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod eu cyfnod cynefino. Mae'r Coleg wedi cynnal sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus i'w staff sy'n canolbwyntio ar y ffyrdd y gallent gynnwys y Gymraeg ymhob agwedd o addysgu, dysgu ac asesu, gan gynnwys cynllunio gwersi. Mae gan bob myfyriwr gynllun dysgu unigol a ddefnyddir i osod a monitro targedau, ac mae'r cynlluniau hyn ar gael yn y Gymraeg hefyd. Mae modd i'r myfyrwyr gyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg, a dilytir yr un broses o brofi gonestrwydd academiaidd drwy ddefnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad ag a wneir gyda gwaith Saesneg.

52 Tynnodd y staff academiaidd sylw at y ffaith fod Grŵp Cynllunio Gwaith Dwyieithog y Coleg wedi derbyn canmoliaeth a gwobr yn ddiweddar am ei ymdrechion i hybu'r iaith Gymraeg gyda chyllid ychwanegol a chlodd gan Lywodraeth Cymru.

53 Enghreifftiau eraill o ymwreiddio'r strategaeth yw bod y Coleg wedi penodi Cydlynnydd y Gymraeg ac amserlen flynyddol o ddiwyddiadau i fyfyrwyr gyda ffocws ar y Gymraeg, yn cynnwys gweithgaredd 'gwobrau am bwyntiau'.

54 Mae'r Llywodraethwyr yn falch o'u hymrwymiad i'r Safonau Iaith Gymraeg, ac roeddent yn cadarnhau bod pump o'r Llywodraethwyr yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn rhan bwrpasol o'r strategaeth recriwtio pan oedd y Coleg yn ailstrwythuro ei Gorff Llywodraethu. Esboniwyd bod y Llywodraethwyr wedi rhoi blaenoriaeth ar y lefel strategol i gydraddoldeb y Gymraeg drwy'r Coleg cyfan, a nodwyd bod Comisiynydd y Gymraeg sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg wedi anfon llythyr personol at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn ei ganmol ef a'r Coleg am eu cynnydd o ran ymwreiddio'r Safonau Iaith Gymraeg yn y Coleg. Hefyd, tynnodd y Llywodraethwyr sylw at y ffaith fod y Strategaeth Ddwyeithog yn ddogfen ategol allweddol sy'n dylanwadu a siapio'r gwaith o weithredu'r Safonau Iaith Gymraeg drwy'r Coleg cyfan ac sy'n sicrhau cydraddoldeb y ddwy iaith ar arwyddion, ar y wefan ac mewn dogfennau ac adnoddau dysgu.

55 Mae dull y Coleg o gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg wedi'i ymwreiddio'n effeithiol ymhob agwedd o'i ddarpariaeth ac mae diwylliant ac ethos cryf yn y Coleg o hybu'r iaith Gymraeg sy'n estyn y tu hwnt i'r hysbysiad cydymffurfio.

QAAXXX - RXXX - Mehefin 2019

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: www.qaa.ac.uk